Asiantaeth Safonau Bwyd
food.gov.uk
Food Standards Agency

# Teitl: Canllawiau ar y gallu i olrhain, tynnu a galw bwyd yn ôl o fewn diwydiant bwyd y Deyrnas Unedig (DU)

**Tudalen grynodeb yr ymgynghoriad**

| Dyddiad lansio: | 07 Ionawr 2019 | Dyddiad cau: | 04 Chwefror 2019 |
|---|---|---|---|

**Pwy fydd â diddordeb yn yr ymgynghoriad hwn?**

Awdurdodau Gorfodi Bwyd
Gweithredwyr Busnesau Bwyd
Sefydliadau Masnach
Sefydliadau Defnyddwyr

**Beth yw testun yr ymgynghoriad hwn?**

**Dyma ymgynghoriad ar y Canllawiau ar y gallu i olrhain, tynnu a galw bwyd yn ôl o fewn diwydiant bwyd y DU.**

**Bydd y canllawiau newydd hyn yn cynorthwyo Gweithredwyr Busnesau Bwyd i gydymffurfio â chyfraith bwyd ac yn rhoi cyngor ac adnoddau ategol iddynt ac i awdurdodau gorfodi bwyd allu ymdrin ag achosion o dynnu a galw bwyd yn ôl er diogelwch. Mae'r canllawiau'n amlinellu'r gofynion cyfreithiol ac yn cynnwys cyngor ar arfer gorau.**

**Beth yw diben yr ymgynghoriad hwn?**

**Diben yr ymgynghoriad hwn yw ceisio barn gan randdeiliaid ar ganllawiau newydd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd(ASB)/Safonau Bwyd yr Alban ar y gallu i olrhain, tynnu a galw bwyd yn ôl o fewn diwydiant bwyd y DU. Nod y canllawiau yw hyrwyddo eglurder a chysondeb ar gyfer gweithredwyr busnesau bwyd ac awdurdodau gorfodi bwyd ar draws y DU a byddant yn disodli nodiadau canllaw'r ASB i Weithredwyr Busnesau Bwyd ar ddiogelwch bwyd, y gallu i olrhain, tynnu a galw cynnyrch yn ôl, a gyhoeddwyd yn 2007[1].**

**Rydym ni'n croesawu barn ar b'un a yw'r canllawiau'n cynnig digon o wybodaeth ac adnoddau ategol i weithredwyr busnesau bwyd ac awdurdodau gorfodi bwyd y DU i'w cynorthwyo i gydymffurfio â chyfraith bwyd a chyngor ar arfer gorau pe nodir mater diogelwch bwyd, a bod angen tynnu neu alw cynnyrch yn ôl.**

**Dylid anfon ymatebion i'r ymgynghoriad hwn at:**

[1] https://www.food.gov.uk/sites/default/files/media/document/fsa1782002guidance.pdf

Llawr 11 / 11th Floor
Tŷ Southgate / Southgate House
Wood Street
Caerdydd / Cardiff CF10 1EW

E: cymru@food.gov.uk / wales@food.gov.uk
Ffôn / Tel: 029 2067 8999

Cofiwch gadw mewn cysylltiad drwy:
Let's keep connected:
facebook.com/AsiantaethSafonauBwyd
facebook.com/FoodStandardsAgency
@fsacymru / @fsawales
@foodgov

| | |
|---|---|
| **Debbie Sharpe**<br>**Asiantaeth Safonau Bwyd**<br>**Ffôn: 02890 417703**<br>**E-bost:** Debbie.sharpe@food.gov.uk | **10a-c Clarendon Road**<br>**Belfast**<br>**BT1 3BG** |



| | | |
|---|---|---|
| **A oes Asesiad Effaith ynghlwm?** | **Oes**<br>☒ | **Nac oes**<br>☐ **Gweler Atodiad A i weld pam.** |

**Canllawiau ar y gallu i olrhain, tynnu a galw bwyd yn ôl o fewn diwydiant bwyd y DU**

## Manylion yr ymgynghoriad

1. O dan Reoliad (CE) Rhif 178/2002, mae hi'n ofyniad cyfreithiol i weithredwyr busnesau bwyd sicrhau bod bwyd sy’n cael ei roi ar y farchnad yn ddiogel. Os bydd digwyddiad diogelwch bwyd, mae'n rhaid i weithredwyr busnesau bwyd dynnu'r bwyd sydd wedi’i effeithio yn ôl o'r farchnad a phan fo'r bwyd wedi cyrraedd y defnyddiwr, mae'n rhaid iddynt roi gwybod mewn modd effeithiol a chywir fod y cynnyrch sydd eisoes wedi'i gyflenwi wedi cael ei alw'n ôl. Hefyd, mae hi’n ofyniad cyfreithiol i weithredwyr busnesau bwyd roi gwybod i’r awdurdodau perthnasol os oes bwyd anniogel wedi’i roi ar y farchnad. Caiff y gofynion ar gyfer awdurdodau gorfodi bwyd ar drin digwyddiadau diogelwch bwyd eu nodi yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a'r Canllawiau Ymarfer cysylltiedig.

2. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn gan randdeiliaid ar ganllawiau newydd y DU ar y gallu i olrhain, tynnu a galw bwyd yn ôl o fewn diwydiant bwyd y DU a fydd yn cael eu defnyddio yn lle nodiadau canllaw'r ASB i weithredwyr busnesau bwyd ar ddiogelwch bwyd, y gallu i olrhain, tynnu a galw cynnyrch yn ôl, a gyflwynwyd yn 2007.

3. Diben y canllawiau hyn yw cynorthwyo awdurdodau gorfodi bwyd a gweithredwyr busnesau bwyd ar draws y DU i ymdrin ag achosion o fwyd yn cael ei dynnu a'i alw'n ôl a chydymffurfio â chyfraith bwyd. Mae'r canllawiau yn amlinellu'r gofynion cyfreithiol ac yn cynnwys cyngor ar arfer gorau.

4. Hefyd, bydd yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban yn datblygu adnoddau i gefnogi'r canllawiau ac maent yn ystyried cyhoeddi dogfen grynhoi y gellir ei defnyddio fel canllaw cyflym i weithredwyr busnesau bwyd gyfeirio ato. Bydd y ddogfen hon yn tynnu sylw at wybodaeth allweddol am brosesau tynnu a galw bwyd yn ôl. Byddai'r ASB yn awyddus i gael adborth gan yr holl randdeiliaid ar ba wybodaeth y hoffent ei chynnwys yn ogystal â syniadau ynghylch sut y dylid ei chyflwyno.

5. Bydd Safonau Bwyd yr Alban yn ymgynghori ar wahân ar y ddogfen hon gyda rhanddeiliaid yn yr Alban. Caiff ymatebion gan y ddau ymgynghoriad cyhoeddus eu hystyried a byddant yn cyfrannu at fersiwn derfynol y canllawiau a ddatblygwyd ar y cyd.

## Amseru

6. Cynhelir yr ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 7 Ionawr 2019 a diwedd y dydd ar 4 Chwefror 2019. Mae'n bwysig cyhoeddi'r canllawiau hyn cyn i'r DU ymadael â'r UE, sef pam y cynhelir yr ymgynghoriad am bedair wythnos. Mae'r canllawiau wedi'u datblygu gan yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban, mewn partneriaeth â gweithgorau â nifer o randdeiliaid gwahanol, gan gynnwys partïon sy'n cynrychioli'r diwydiant bwyd (o ran busnesau bwyd a chymdeithasau masnach ar draws y sbectrwm maint a chynhyrchu), awdurdodau gorfodi (awdurdodau lleol) a sefydliadau cynrychioli defnyddwyr.

**Cefndir**

7. Cafodd prosiect ar y cyd rhwng yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban ei gychwyn yn 2016, yn dilyn cyhoeddi adolygiad Lynn Faulds Wood o systemau'r DU ar gyfer galw cynhyrchion anniogel yn ôl. Ei ddiben oedd adolygu a deall yn well y mecanweithiau tynnu a galw bwyd yn ôl sydd ar waith o fewn diwydiant bwyd y DU a gwneud argymhellion ar gyfer gwella. Cyn y prosiect, ychydig iawn o dystiolaeth oedd o weithrediad neu effeithiolrwydd gofynion cyfreithiol ar gyfer busnesau bwyd ac awdurdodau gorfodi bwyd i wneud penderfyniadau dros newid a gwella. Hefyd, nid oedd dealltwriaeth glir o ymwybyddiaeth defnyddwyr o alw cynnyrch yn ôl a'u hymddygiadau mewn cysylltiad â'r system bresennol ar gyfer galw bwyd yn ôl.

8. Cafodd cyfnod cychwynnol yr adolygiad (gwaith ymchwil a chasglu tystiolaeth) ei gynnal yn 2017, gyda'r bwriad o gyflawni'r canlynol:

- casglu gwybodaeth am sut mae'r system bresennol yn gweithio
- sefydlu'r heriau sy'n gysylltiedig â'r system bresennol
- nodi meysydd i'w gwella
- dysgu mwy am ymwybyddiaeth ac ymddygiad defnyddwyr tuag at alw bwyd yn ôl
- cymharu canllawiau Awdurdod Cymwys Canolog y DU â rhai gwledydd eraill. Cafodd ymarfer meincnodi cymharu rhyngwladol ei gynnal ar ganllawiau a gyhoeddwyd gan yr awdurdod cymwys canolog ar dynnu a galw bwyd yn ôl o'r DU, Iwerddon, Canada, America, Awstralia a Seland Newydd.

9. Er cafodd cryfderau'r system bresennol eu cydnabod, datgelodd canfyddiadau allweddol yr ymchwil[2] gyfleoedd sylweddol i gryfhau a gwella ei heffeithiolrwydd a'i gwydnwch cyffredinol.

10. Nododd yr adolygiad yr egwyddorion canlynol ar gyfer system galw'n ôl effeithiol:

- system tynnu a galw bwyd yn ôl sy'n seiliedig ar gyfres glir a phenodol o rolau a chyfrifoldebau, y cytunwyd arnynt ac a ddeallir gan bawb sy'n rhan ohoni
- mae gwybodaeth i ddefnyddwyr ar gael ac yn gyson, yn seiliedig ar arfer gorau profedig ac wedi'i hategu gan ddulliau ac effaith wedi'u rhannu ar draws y diwydiant
- mae'r cyhoedd yn ymwybodol o'r broses galw yn ôl a pha gamau y dylen nhw

[2] https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20171207163607/https:/www.food.gov.uk/sites/default/files/recalls-efficacy-report.pdf

eu cymryd

- mae cylchoedd adborth ac athroniaeth o wella parhaus ymhlith yr holl randdeiliaid yn ategu'r system tynnu a galw cynnyrch yn ôl

11. Cafodd rhaglen wella ei sefydlu a'i chyflwyno gan yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol o'r diwydiant bwyd, awdurdodau gorfodi bwyd, sefydliadau defnyddwyr a chyrff masnach.

12. Cafodd nifer o amcanion allweddol eu nodi i'w gweithredu cyn 29 Mawrth 2019 a chawsant eu cyflwyno drwy weithgorau yn cynnwys nifer o randdeiliaid gwahanol:

- Ffrwd waith 1 – Datblygu a chyhoeddi canllawiau cynhwysfawr yn y DU yn egluro rolau a chyfrifoldebau y rhai sy'n chwarae rhan allweddol wrth dynnu a galw bwyd yn ôl yn y DU er diogelwch.
- Ffrwd waith 2 – Datblygu canllawiau arfer gorau i'r diwydiant er mwyn helpu i sicrhau bod yr hysbysiadau galw bwyd yn ôl ar gyfer defnyddwyr yn fwy cyson a hygyrch.
- Ffrwd waith 3 – Datblygu canllawiau arfer gorau i'r diwydiant er mwyn helpu i sicrhau negeseuon cyfathrebu cyson a mwy effeithiol o fasnach i fasnach.
- Ffrwd waith 4 – Datblygu a gweithredu gweithdrefnau dadansoddi gwraidd y broblem i'w defnyddio gan y diwydiant pe bai bwyd yn cael ei dynnu a'i alw'n ôl er diogelwch.

13. Cafodd ffrydiau gwaith 1, 2 a 4 eu harwain gan yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban. Roedd ffrwd waith 3 dan arweiniad y diwydiant. Roedd rhanddeiliaid arbenigol yn y meysydd perthnasol yn aelodau o bob ffrwd waith.

14. Roedd gwaith ymchwil a gomisiynwyd yn allanol gyda defnyddwyr, a chyfraniad gan fusnesau bwyd, yn elfen allweddol o ffrwd waith 2 i ddeall arfer gorau o ran cyfathrebu negeseuon galw bwyd yn ôl. Mae'r adroddiad ymchwil ar gael yma.

15. Mae allbynnau Ffrydiau gwaith 2, 3 a 4 wedi'u hymgorffori yn y canllawiau newydd hyn sydd wedi'u datblygu yn y DU. Mae gwybodaeth bellach ac adnoddau ategol wrthi'n cael eu datblygu gan Ffrwd waith 4 a byddant ar gael yn gyhoeddus maes o law.

16. Bydd cyflwyno a gweithredu'r gwelliannau a nodwyd yn cynorthwyo'r gwaith o sicrhau hyder y cyhoedd mewn bwyd wrth i'r DU ymadael â'r UE. Bydd y canllawiau'n sicrhau bod gan weithredwyr busnesau bwyd yn y DU gyngor ar y gwaith o ddatblygu a gweithredu system gadarn ar gyfer mynd ati mewn modd effeithiol i gael gwared ar fwyd anniogel o'r farchnad.

## Effeithiau

17. Wedi’i amlinellu isod y mae ein hasesiad o effaith amcangyfrifiedig y gwaith o weithredu’r canllawiau hyn, a hynny yng nghyd-destun y DU gyfan.

***Rhagdybiaethau a Thystiolaeth***

- bydd fersiwn fwy newydd o'r canllawiau yn cael ei defnyddio yn lle'r un bresennol, felly dim ond y gwahaniaeth o ran cost wrth ymgyfarwyddo â'r canllawiau wedi'u diweddaru a ystyrir yn yr asesiad
- rhagdybiwyd y bydd digwyddiadau bwyd a sefydliadau bwyd yn 2018/19 yn debyg i'r rhai hynny yn 2017/18. Caiff pob sefydliad bwyd ei ystyried yn yr asesiad
- rhagdybiwyd mai dim ond un rheolwr fesul sefydliad fyddai'n darllen y canllawiau newydd: pe byddai rhagor o reolwyr yn dewis eu darllen, ni fydd hynny'n cael ei gynnwys yn yr asesiad
- rhagdybiwyd y byddai pob Swyddog Safonau Masnach a Swyddog Iechyd yr Amgylchedd sy'n cyflawni rôl gorfodi bwyd ym mhob awdurdod lleol yn darllen y canllawiau

- cafodd gorbenion o 30% eu hychwanegu at gyfrifiadau o gyflogau rheolwyr a swyddogion, yn unol ag argymhellion y Llyfr Gwyrdd[3].

- **Amcangyfrifir y bydd gweithredu'r canllawiau newydd yn cynyddu costau cyffredinol i sefydliadau bwyd o £7,371 (gan ragdybio bod rheolwr gweithredwr busnes bwyd yn eu darllen pan fo'r gweithredwr busnes bwyd hwnnw'n cael digwyddiad bwyd) – ac uchafswm damcaniaethol o £1,973,600 (gan ragdybio bod rheolwr gweithredwr busnes bwyd ym mhob sefydliad yn y DU yn eu darllen)**

- **Amcangyfrifir y bydd gweithredu'r canllawiau newydd yn cynyddu costau cyffredinol i awdurdodau lleol o £28,136 – £34,547 (gan ragdybio bod pob Swyddog Safonau Masnach/Swyddog Iechyd yr Amgylchedd diogelwch bwyd yn darllen y canllawiau hyn, hyd yn oed os ydynt wedi darllen y fersiwn bresennol).**

| | Tâl canolrifol yr awr[4] | Ystyried gorbenion o 30% |
|---|---|---|
| **Rheolwr Gweithredwr Busnes Bwyd** | £ 10.58 | **£ 13.75** |
| **Swyddog Safonau Masnach** | £ 15.37 | **£ 19.98** |
| **Swyddog Iechyd yr Amgylchedd** | £ 18.87 | **£ 24.53** |

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm nifer y Sefydliadau Bwyd[5]** | 634, 598 |
| **Cyfanswm nifer y swyddogion llawn amser yn cyflawni gwaith Gorfodi Cyfraith Bwyd[6]** | 2,095 |

[3] Swyddfa'r Cabinet (2005). "Measuring Administrative Costs: UK Standard Cost Model Manual (p.62)". Ar gael: https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20090609014336/http://www.berr.gov.uk/files/file44503.pdf

[4] Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol "Annual Survey of Hours and Earnings time series of selected estimates (Dataset ID: ASHE Table 1)". Ar gael: https://cy.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/datasets/allemployeesashetable1?:uri=employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/datasets/allemployeesashetable1

[5] Asiantaeth Safonau Bwyd (2018). *Adroddiad Blynyddol ar Waith Gorfodi Cyfraith Bwyd Awdurdodau Lleol* [ar-lein] Ar gael: https://signin.riams.org/files/display_inline/49567/LAEMS-Annual-report-2017-2018-final-version-17092018.pdf
Niferoedd a gofnodwyd gan Safonau Bwyd yr Alban ar gyfer 2017/18

[6] Asiantaeth Safonau Bwyd (2018).*Adroddiad Blynyddol ar Waith Gorfodi Cyfraith Bwyd Awdurdodau Lleol* [ar-lein] Ar gael: https://signin.riams.org/files/display_inline/49567/LAEMS-Annual-report-2017-2018-final-version-17092018.pdf
Niferoedd a gofnodwyd gan Safonau Bwyd yr Alban ar gyfer 2017

***Nifer Amcangyfrifiedig o Ddigwyddiadau Bwyd:***

| | Cyfanswm digwyddiadau [7] | Digwyddiadau bwyd anifeiliaid | Digwyddiadau bwyd |
|---|---|---|---|
| **2012/13** | 1, 604 | 31 | 1, 573 |
| **2013/14** | 1, 562 | 49 | 1, 513 |
| **2014/15** | 1, 645 | 36 | 1, 609 |
| **2015/16** | 1, 514 | 42 | 1, 472 |
| **2016/17** | 2, 265 | 68 | 2, 197 |
| **2017/18** | 2, 431 | 61 | 2, 370 |

- Gan fod digwyddiadau a gofnodwyd yn cynnwys cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid, rhaid peidio â chynnwys digwyddiadau'n ymwneud â bwyd anifeiliaid, gan mai dim ond cynhyrchion bwyd a elwir yn ôl gaiff eu hystyried yn yr asesiad hwn.

- Nid oedd modd gwahaniaethu rhwng y categorïau bwyd a bwyd anifeiliaid ar gyfer rhan o'r DU yn 2017/2018 oherwydd cyfyngiadau data, ond, yn seiliedig ar ddata o'r blynyddoedd cynt, roedd hi'n bosibl cyfrifo amcangyfrifiad, sef 2,370 (gwerth canolrifol rhwng yr amcangyfrifiadau uchaf ac isaf).

***Costau darllen (ymgyfarwyddo) a amcangyfrifir ar gyfer y canllawiau newydd yn erbyn y canllawiau presennol[8]:***

- Cyfrifir costau darllen y canllawiau newydd gan ddefnyddio cyfrif geiriau amcangyfrifiedig y ddogfen (11,094) a chyflog bob awr y rheolwyr (£13.75).
- Cyfrifir costau darllen y canllawiau presennol gan ddefnyddio cyfrif geiriau amcangyfrifiedig y ddogfen (7,353) a chyflog bob awr y rheolwyr (£13.75).

[7] Asiantaeth Safonau Bwyd (2017). *Adroddiad Blynyddol o Ddigwyddiadau.* [Adroddiadau – nes 2016/17] Ar gael: https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20180411170446/https://www.food.gov.uk/about-us/data-transparency-accounts/busreps/miscbusrep

[8] Yn seiliedig ar gyflymder darllen cyfartalog o **275 gair/munud** fel yr argymhellir yn nabl 1, tudalen 15 "Business Impact Target Guidance" yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS). https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/609201/business-impact-target-guidance-appraisal.pdf

| **Cost darllen – Canllawiau PRESENNOL** Rheolwyr Gweithredwyr Busnesau Bwyd | |
|---|---|
| Cyfrif geiriau'r fersiwn ddrafft | 7, 353 |
| Cyfanswm amser darllen (mewn munudau) | 26.74 |
| **Cost darllen y fersiwn ddrafft** | **£ 6.13** |

| **Cost darllen – Canllawiau NEWYDD** Rheolwyr Gweithredwyr Busnesau Bwyd | |
|---|---|
| Cyfrif geiriau'r fersiwn ddrafft | 11, 094 |
| Cyfanswm amser darllen (mewn munudau) | 40.34 |
| **Cost darllen y fersiwn ddrafft** | **£ 9.24** |

***Baich a amcangyfrif ar y diwydiant:***

- Caiff cost y canllawiau newydd ei chyfrifo gan ddefnyddio nifer amcangyfrifiedig y digwyddiadau bwyd (2,370) a chost darllen y rheolwyr (£9.24).
- Caiff cost y canllawiau presennol ei chyfrifo gan ddefnyddio'r un nifer amcangyfrifiedig o ddigwyddiadau bwyd (2,370) a hen gost darllen y rheolwyr (£6.13).

| **1 rheolwr gweithredwr busnes bwyd ar gyfer 1 digwyddiad yn darllen y canllawiau** | |
|---|---|
| **Cost darllen y canllawiau PRESENNOL** | **£ 14,528** |
| Cost darllen y canllawiau NEWYDD | **£ 21,899** |
| **Cynnydd mewn costau o** | **£ 7,371** |

***Baich ddamcaniaethol uchaf ar y diwydiant:***

- O dybio y byddai rheolwr ym mhob sefydliad bwyd sydd o fewn cwmpas y canllawiau newydd yn eu darllen, gallwn sefydlu'r gost ddamcaniaethol uchaf i fusnesau.
- Caiff cost  y canllawiau newydd ei chyfrifo gan ddefnyddio nifer amcangyfrifiedig y sefydliadau bwyd dan sylw (634,598) a chost darllen y rheolwyr (£9.24).
- Caiff cost y canllawiau presennol ei chyfrifo gan ddefnyddio nifer amcangyfrifiedig y sefydliadau bwyd dan sylw (634,598) a chost darllen y rheolwyr (£6.13).

| **1 rheolwr gweithredwr busnes bwyd ar gyfer 1 sefydliad yn darllen y canllawiau** | |
|---|---|
| **Cost darllen y canllawiau PRESENNOL** | **£ 3, 890, 086** |
| Cost darllen y canllawiau NEWYDD | **£ 5, 863, 686** |
| **Cynnydd mewn costau o** | **£ 1, 973, 600** |

***Cost ymgyfarwyddo a amcangyfrifir ar gyfer awdurdodau lleol:***

- Mae'r ffigurau ar gyfer costau darllen unigol Swyddogion Safonau Masnach a Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd wedi'u cyfrifo yn debyg i gostau darllen y rheolwyr, gan ddefnyddio amser darllen amcangyfrifiedig o 40.34 munud a chyflogau bob awr o £19.98 a £24.53 (gan gynnwys gorbenion).
- Mae'r ffigurau ar gyfer costau darllen awdurdodau lleol wedi'u cyfrifo gan luosi nifer amcangyfrifiedig y swyddogion Gorfodi Cyfraith Bwyd yn y DU (2,095) â chostau darllen unigol y swyddogion (£13.43 a £16.49).
- Darparwyd yr amcangyfrifon isaf ac uchaf o ran cyfanswm y costau ar gyfer yr holl awdurdodau lleol, gan gymryd bod y 2,095 o swyddogion a ystyrir naill ai'n Swyddogion Safonau Masnach neu'n Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd, gan fod eu cyflogau bob awr yn wahanol.

| **Cynnydd mewn costau darllen ar gyfer y Canllawiau NEWYDD –** Swyddogion Safonau Masnach a Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd | |
|---|---|
| Swyddog Safonau Masnach | **£ 13.43** |
| Swyddog Iechyd yr Amgylchedd | **£ 16.49** |
| Costau darllen ar gyfer yr **holl awdurdodau lleol** | |
| Os yw'r holl swyddogion yn *Swyddogion Safonau Masnach* | **£ 28,136** |
| Os yw'r holl swyddogion yn *Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd* | **£ 34,547** |
| **Cyfanswm costau ar gyfer yr holl awdurdodau lleol** | |
| **£ 28,136 – £ 34,547** | |

***Manteision Ansoddol i'r Diwydiant ac i Awdurdodau Lleol:***

- Bydd gweithredu'r canllawiau hyn yn gwella effeithiolrwydd cyffredinol y system tynnu a galw bwyd yn ôl yn y DU ac yn codi ymwybyddiaeth ohoni. Bydd gan fusnesau bwyd ac awdurdodau gorfodi bwyd yn y DU fynediad at wybodaeth ac adnoddau cynhwysfawr i'w cefnogi i sicrhau bod systemau cadarn ar waith.

- Wrth i'r DU baratoi i ymadael â'r UE, bydd yn cynorthwyo'r DU i ddangos i'r UE a gweddill y byd fod system gadarn a chynhwysfawr ar waith i reoli achosion o dynnu a galw bwyd yn ôl, ac felly'n diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd hefyd yn lliniaru unrhyw risg o ddefnyddwyr yn colli hyder mewn cynnyrch o'r DU.

- Bydd gweithredu’r canllawiau hyn yn galluogi busnesau bwyd ac awdurdodau gorfodi bwyd yn y DU i elwa ar system tynnu a galw bwyd yn ôl sy’n glir, gyda set benodol o rolau a chyfrifoldebau y gall pawb eu deall.

- Bydd y canllawiau’n cynorthwyo gweithredwyr busnesau bwyd i ddarparu gwybodaeth gyson a hygyrch i ddefnyddwyr sy’n seiliedig ar ymchwil ac arfer gorau profedig.

**Y broses ymgysylltu ac ymgynghori**

18. Mae ymgynghoriad cyhoeddus pedair wythnos o hyd yn cael ei lansio i roi cyfle i randdeiliaid ar draws y DU roi sylwadau ar y canllawiau newydd a'u heffeithiau cysylltiedig sydd wedi'u hasesu gan yr ASB.

19. Mae'r ASB yn arbennig o awyddus i glywed gan fusnesau bach a chanolig am y canllawiau a'u heffaith debygol.

20. Yn dilyn yr ymgynghoriad, byddwn ni'n adolygu'r ymatebion a dderbyniwyd a byddwn ni'n ystyried unrhyw newidiadau efallai y bydd eu hangen ochr yn ochr â'r adborth ar effaith y canllawiau.

21. Bydd crynodeb o'r holl sylwadau a ddaw i law ar gyfer yr ymgynghoriad hwn a'r ymgynghoriad a gyflwynwyd yn yr Alban yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan o fewn tri mis i ddiwedd yr ymgynghoriad.

**Cwestiynau’r ymgynghoriad**

22. Mae'r ASB yn arbennig o awyddus i gael ymatebion i'r cwestiynau a amlinellir isod, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth y gallwch ei darparu i gefnogi eich barn. Mae croeso i'r holl randdeiliaid ymateb i unrhyw gwestiwn:

C1: Beth yw eich barn chi ar ddull asesu'r ASB o ran y costau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r canllawiau? A yw'n adlewyrchu'r arfer?

C2: A oes unrhyw effeithiau neu ystyriaethau eraill (ariannol neu fel arall) nad ydynt wedi'u nodi yn yr ymgynghoriad hwn?
Rhowch fanylion.

C3: A yw'r canllawiau yn gwahaniaethau'n glir rhwng y gofynion cyfreithiol a chyngor ar arfer gorau?
Rhowch fanylion.

C4: Pa rwystrau, os o gwbl, ydych chi'n eu rhagweld wrth weithredu'r canllawiau?

Rhowch fanylion.

C5:  Pa newidiadau fydd angen i chi eu gwneud i'ch busnes, os o gwbl, o ganlyniad i weithredu'r canllawiau hyn?

C6:  Pa effaith fydd y canllawiau hyn yn ei chael ar eich gallu i ymdrin ag achosion o dynnu a galw bwyd yn ôl?

C7:  Beth yw eich barn chi ar y cyngor arfer gorau a'r hysbysiadau enghreifftiol ategol a ddarperir yn y canllawiau hyn?
Yn benodol, croesawn eich barn ar y canlynol:

- A yw'n rhesymol i weithredwyr busnesau bwyd gadw cofnodion o'r gallu i olrhain bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw ar gyfer oes silff y cynnyrch ac am 12 mis?
- A yw'r cyngor asesiad risg a'r pwyntiau i'w hystyried yn ddefnyddiol i fusnesau?
- A yw'r hysbysiad enghreifftiol i fusnesau bwyd ar gyfer galw bwyd yn ôl yn ddefnyddiol ac yn hawdd ei gwblhau ac a fydd yn hysbysu defnyddwyr yn effeithiol ac yn gywir? Os nad ydyw, nodwch fanylion ac argymhellion ar gyfer gwella.
- A fyddwch chi'n defnyddio'r hysbysiad galw bwyd yn ôl enghreifftiol ar gyfer defnyddwyr? Os na fyddwch chi, esboniwch pam.
- A yw'n bosib cyflawni prif egwyddorion hysbysiadau galw bwyd yn ôl ar gyfer defnyddwyr?
- A oes unrhyw ffactorau eraill y dylid eu hystyried wrth gyfathrebu hysbysiadau galw bwyd yn ôl â defnyddwyr?
- A hoffech chi weld dau hysbysiad enghreifftiol gwahanol ar gyfer galw bwyd yn ôl i ddefnyddwyr – un ar gyfer galw bwyd yn ôl ac un ar gyfer rhybuddion alergedd? Os felly, sut hoffech i'r rhain gael eu gwahaniaethu?

C8:  Pa offer ychwanegol fydd yn eich cynorthwyo chi i weithredu'r canllawiau'n effeithiol?

C9:  Pa wybodaeth hoffech ei gweld mewn dogfen grynhoi 'Canllawiau Cyfeirio Cyflym', sy'n cyd-fynd â'r canllawiau hyn, a sut hoffech i'r wybodaeth honno gael ei chyflwyno?

C10:  A fydd gweithredu'r canllawiau hyn yn rhoi mwy o sicrwydd y gall busnesau yn y DU reoli achosion o dynnu a galw bwyd yn ôl yn effeithiol?

Mae croeso i randdeiliaid nodi unrhyw sylwadau eraill.

**Ymatebion**

23. Mae angen ymatebion erbyn diwedd oriau busnes ar 4 Chwefror 2019. Yn eich ymateb, nodwch a ydych yn ymateb fel unigolyn preifat, neu ar ran sefydliad (gan gynnwys manylion unrhyw randdeiliaid y mae’ch sefydliad yn eu cynrychioli) neu gwmni. Dylid anfon ymatebion at debbie.sharpe@food.gov.uk.

Ar ran yr ASB, hoffwn ddiolch yn fawr i chi am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn.

Yn gywir,



Debbie Sharpe
Prosiect Effeithlonrwydd Galw Bwyd yn Ôl
Yr Asiantaeth Safonau Bwyd

**Atodiadau:**

**Atodiad A: Gwybodaeth Safonol am yr Ymgynghoriad**
**Atodiad B: Canllawiau'r DU ar y gallu i olrhain, tynnu a galw bwyd yn ôl o fewn diwydiant bwyd y DU**
**Atodiad C: Rhestr rhanddeiliaid yr ymgynghoriad**

## Atodiad A: Gwybodaeth safonol am yr ymgynghoriad

### Datgelu'r wybodaeth a ddarperir gennych

Efallai caiff yr wybodaeth a roddir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn ei chyhoeddi i bartïon eraill neu ei datgelu yn unol â'r cyfundrefnau mynediad at wybodaeth (yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 1998 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os dymunwch i'r wybodaeth yr ydych yn ei rhoi gael ei thrin yn gyfrinachol, byddwch yn ymwybodol bod yna God Ymarfer statudol o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef. Mae'n ymdrin, ymhlith pethau eraill, â rhwymedigaethau cyfrinachedd.

O ystyried hyn, byddai'n ddefnyddiol pe gallech esbonio i ni pam eich bod yn ystyried yr wybodaeth a roddwyd gennych yn gyfrinachol. Os cawn gais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cadw cyfrinachedd dan bob amgylchiad.

Ni fydd unrhyw ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ar ei ben ei hun, yn cael ei ystyried fel un sy'n rhwymo.

Yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) fydd 'Rheolydd' y data personol a ddarperir i ni.

### Pam ein bod yn casglu eich data personol a'r hyn a wnawn â'r data hwnnw

Mae eich data personol yn cael ei gasglu fel rhan hanfodol o'r broses ymgynghori, fel y gallwn gysylltu â chi ynglŷn â'ch ymateb ac at ddibenion ystadegol. Efallai hefyd y byddwn yn ei ddefnyddio i gysylltu â chi am faterion cysylltiedig.

Mae Deddf Diogelu Data 2018 yn datgan y gall yr ASB, fel adran o'r llywodraeth, brosesu data personol fel bo'r angen er mwyn cyflawni tasg sydd er budd y cyhoedd yn effeithiol h.y. ymgynghoriad.

Dim ond am y cyfnod sydd ei angen i gyflawni'r swyddogaethau hyn rydym ni'n cadw gwybodaeth bersonol, ac yn unol â'n polisi cadw. Mae hyn yn golygu y byddwn ni'n cadw'r wybodaeth hon am uchafswm o 7 mlynedd wedi iddi ddod i law.

Mae'r holl ddata personol rydym ni'n ei brosesu yn byw ar weinyddion o fewn yr Undeb Ewropeaidd. Mae ein gwasanaethau cwmwl wedi’u caffael drwy Gytundebau Fframwaith y Llywodraeth a’u hasesu yn erbyn egwyddorion cwmwl y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol.

Nid oes gan drydydd partïon fynediad at eich data personol oni bai bod y gyfraith yn caniatáu iddynt wneud hynny. Bydd yr ASB weithiau'n rhannu data gydag adrannau eraill y llywodraeth, cyrff cyhoeddus a sefydliadau sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus i'w cynorthwyo i gyflawni eu dyletswyddau statudol, neu pan fydd er budd y cyhoedd.

**Beth yw eich hawliau?**

Mae gennych chi'r hawl i weld yr wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi drwy wneud cais ysgrifenedig i'r cyfeiriad e-bost isod. Os ydych chi ar unrhyw adeg o'r farn bod yr wybodaeth rydym ni'n ei phrosesu amdanoch chi yn anghywir, gallwch chi wneud cais i'w chywiro. Os hoffech chi wneud cwyn am y ffordd rydym ni wedi trin eich data personol, gallwch chi gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data a fydd yn ymchwilio i'r mater.

Os nad ydych chi'n fodlon â'n hymateb neu os ydych chi o'r farn nad ydym yn prosesu eich data personol yn unol â'r gyfraith, fe allwch chi gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn https://ico.org.uk/, neu drwy ffonio 0303 123 1113.

Ein Swyddog Diogelu Data yn yr ASB yw Arweinydd y Tîm Rheoli Gwybodaeth a Diogelwch. Gallwch chi gysylltu drwy anfon e-bost at: informationmanagement@food.gov.uk

**Rhagor o wybodaeth**

Os ydych chi angen y ddogfen hon mewn fformat sy'n haws i'w ddarllen, anfonwch fanylion at y cyswllt a enwir ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn a bydd eich cais yn cael ei ystyried.